



Ein cyf/Our ref qA1476097

Mr Peter Grubb
Lighthouse Development Consulting
3rd Floor
The Senate
Southernhay Gardens
Exeter
EX1 1UG

E-bost: [REDACTED]

10 Tachwedd 2022

Annwyl Mr Grubb,

**CAIS DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 - ADRAN 62D AC ADRAN 62F
RHEOLIADAU DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (CYMRU) 2016
GAN: BRYNWELL FARM SOLAR LTD AR GYFER GOSOD FFERM SOLAR SY'N
CYNNWYS PANELI SOLAR PV WEDI'U GOSOD AR Y DDAEAR GYDA
GALLU CYNHYRCHU (AC) WEDI'I OSOD NET HYD AT 25 MW, GAN GYNNWYS SYSTEM
FOWNTIO, GWRTHDROYDDION, CEBLAU TANDDAEAROL, HYB CYSYLLTIAD GRID A
GWAITH CYSYLLTIEDIG GYDA CHANIATÂD EILAIDD CYSYLLTIEDIG AR GYFER
UNEDAU STORIO BATRIS
SAFLE: TIR RHWNG YR A4232 A PHENTREF LECWYDD, CAERDYDD. CYFEIRNOD
CAIS: DNS/3261558**

1. Ystyriwyd adroddiad yr Arolygydd, Iwan Lloyd BA BTP MRTPI a oedd yn ystyried sylwadau ysgrifenedig i archwilio'r cais cynllunio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DAC") uchod a chaniatâd eilaidd cysylltiedig.
2. Yn unol ag adrannau 62D a 62F o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliad 3 o Reoliadau DAC (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Uwchradd Rhagnodedig) (Cymru) 2016, gwnaed y cais i Weinidogion Cymru am ddyfarniad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Gwnaeth yr Arolygydd ymweliad safle ar ei ben ei hun ar 21 Mehefin 2022. Mae'r Arolygydd yn argymhell rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y prif gais DAC a'r caniatâd eilaidd cysylltiedig yn destun amodau. Amgaeir copi o adroddiad yr Arolygydd ("IR"). Mae pob cyfeiriad at rifau paragraff, oni nodir yn wahanol, yn ymwneud ag Adroddiad yr Arolygydd.

Cais DAC

Prif Ystyriaethau

4. Rwy'n cytuno mai'r prif ystyriaethau yw'r rhai a restrir yn IR 187:
 - Effaith y datblygiad arfaethedig ar:
 - Gymeriad tirwedd a mwynder gweledol yr ardal;
 - Asedau treftadaeth;
 - Ecoleg yr ardal a rhywogaethau gwarchodedig;
 - Amodau byw trigolion cyfagos mewn perthynas â sŵn;
 - Llifoedd traffig a diogelwch priffyrdd, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu; ac
 - a yw'r datblygiad arfaethedig yn dderbyniol mewn perthynas â llifogydd a hydroleg, gan roi sylw i bolisi cynllunio lleol a chenedlaethol; ac
 - a yw manteision y cynllun yn drech nag unrhyw niwed a nodwyd mewn perthynas â'r blaenorol ac unrhyw ystyriaethau eraill, yn enwedig ei gyfraniad at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a mynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd.

Cymeriad Tirwedd a Mwynder Gweledol

5. Mae safle'r cais o fewn Ardal Tirwedd Arbennig ("ATA") Basn Cwrt-yr-ala fel y'i dynodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol ("CDLI") Cyngor Bro Morgannwg ("BM"). Mae Polisi Cynllunio Cymru ("PCC") yn cydnabod gwerth pob tirwedd am ei chymeriad unigryw ac yn ceisio diogelu ei rhinweddau arbennig a sicrhau bod y cyfleoedd a ddarperir ganddi, gan gynnwys ar gyfer lles, twristiaeth ac ynni adnewyddadwy, yn cael eu hystyried. (IR 188)
6. Mae'r Arolygydd yn nodi bod yr Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol ("LVIA") wedi'i baratoi yn unol â Chanllawiau ar gyfer Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol 3ydd Argraffiad, 2013. Mae'n cynnwys mapiau Parth Gweledd Damcaniaethol ("ZTV") sy'n nodi ardaloedd y gellid gweld y datblygiad ohonynt ar sail dadansoddiad topograffig, moel-ddaeir, a ZTV cronus sy'n cynnwys y datblygiad yn Fferm Solar Woden Park. Mae'r Arolygydd yn nodi'r feirniadaeth gan drigolion a Chyngor BM o agweddau ar yr asesiad a sylwadau eraill. Mae'r LVIA wedi asesu'r gwaith adeiladu yn ogystal â chyfnod gweithredol y datblygiad. Er byddai'r cyfnod adeiladu, ar adegau penodol, yn cael mwy o effaith nag yn ystod y gweithredu, gan ei fod yn debygol o fod yn gymharol fyrhoedlog, mae'r Arolygydd wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyfnod gweithredol y prosiect. (IR 189-190)

Cymeriad Tirwedd

7. Mae'r Arolygydd yn nodi bod safle'r cais a'r ardal gyfagos yn dirwedd donnog o bant a bryn yn ATA basn Cwrt-yr-ala. Clytwaith o gaeau bugeiliol yw'r gorchudd tir, gyda gwrychoedd yn aml yn cynnwys coed a choetiroedd ffiniol. Mae'r tirffurf yn codi i'r dwyrain ym Mryn Ceiliog. Nodir yr ardal am ei llonyddwch, gan nad oes unrhyw ffyrdd mawr yn rhedeg drwyddi. Ystyria'r Arolygydd fod gan yr ardal ymdeimlad cryf o le, ac yno adeiladau cynhenid, coetir llydanddail a gwrychoedd llawn o goed yn ategu tir fferm a reolir yn dda. Sylwa'r Arolygydd fod ardal uniongyrchol y safle wedi'i hynysu'n ffisegol ac yn weledol o'i hamgylchoedd. Mae'n cynnwys ambell adeilad ynysig yn unig a dau lwybr troed gyda golygfeydd posibl tuag at y safle. Gorchuddir y cribau i'r gorllewin, y gogledd-ddwyrain a'r dwyrain â choetir. (IR 191-192)
8. Cred yr Arolygydd y byddai'r cynllun yn cadw patrwm caeau unigryw'r safle, ac y bydd y dirwedd yn cael ei gwarchod drwy gadw pob elfen ffin. Sylwa'r Arolygydd fod y safle wedi'i sgrinio'n dda o'r ardal gyfagos, gan leihau effeithiau posibl ar gymeriad y dirwedd yn gyffredinol, ac mae'r Arolygydd o'r farn y byddai nodweddion tirwedd unigryw Ardal Cymeriad Tirwedd Cwrt-yr-ala yn cael eu cadw gan y datblygiad arfaethedig. (IR 194)
9. Dywed yr Arolygydd y byddai'r datblygiad yn y golwg, yn enwedig o fannau agos, ond byddai i'w weld yng nghyd-destun y patrymau caeau presennol a fyddai'n parhau i gael eu fframio gan wrychoedd a choed sy'n nodweddu'r dirwedd. Mae'r Arolygydd o'r farn y gall effaith y cynnig ar gymeriad y dirwedd newid ychydig y canfyddiad o borfa wledig drwy newid o laswelltir i baneli solar ac y gallai hyn gynyddu'r canfyddiad o ddylanwad dynol ar y dirwedd. Nid oes mynediad i'r cyhoedd yng nghyffiniau'r safle ac mae unrhyw gysylltiad gweledol sylweddol â'r safle ac oddi yno yn golygu y bydd unrhyw effaith yn lleol iawn. Y tu hwnt i ardal leol hon y safle, mae'r Arolygydd yn fodlon y byddai'r effaith ar yr ardal gyfagos a'r ATA yn fach. (IR 195)
10. Ar ôl ei adeiladu, mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r datblygiad yn golygu ychydig iawn o weithgaredd a fyddai'n amharu ar dawelwch y dirwedd wledig. Mae lefel gymharol isel a phwyslais llorweddol yr araeau yn golygu y byddent yn cael eu gweld yn dilyn y topograffi presennol. Mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r defnydd rheoledig o ffensys yn arwain at olwg sy'n gyson â chymeriad amaethyddol pennaf yr ardal, felly, er byddai presenoldeb y datblygiad yn y dirwedd gyfagos yn amlwg, ni fyddai'n tanseilio ei chymeriad. Mae'r Arolygydd yn fodlon y byddai unrhyw effaith yn lleihau'n sylweddol gyda chynnydd cymharol fach mewn pellter o'r safle. (IR 196)

Mwynder Gweledol

11. Mae effaith weledol y cynllun wedi'i hysbysu drwy fapio ZTV y cynllun ar wahân ac ar y cyd â Fferm Solar Woden Park. Sylwa'r Arolygydd fod y datblygiad wedi ceisio osgoi neu liniaru effeithiau posib ar y dirwedd. Cred yr Arolygydd, ar y cyfan, fod golygfeydd cipolwg byr o'r safle o'r trac lle ceir mynedfeydd giât i gaeau i'r de o'r safle a lle ceir golygfeydd dros wrychoedd a rhwng coed aeddfed. (IR 197-199)

12. Mae gan ddefnyddwyr llwybr troed sensitifrwydd uchel i ddatblygiad yn yr ATA ac mae llwybrau troed yn croesi'r ardal hon tuag at Fferm Brynwell cyn mynd i'r dwyrain tuag at Fryn Ceiliog ond yn pasio'n agos i'r safle. O ran y golygfeydd hyn, mae'r Arolygydd yn nodi y byddai newid o gaeau agored i baneli llorweddol. Fodd bynnag, cipolygon yw'r golygfeydd, a byddai'r cynllun yn cadw'r ymdeimlad cryf o lociau caeau, a byddai'r caeau deheuol yn cyfyngu ar y newid llwyr hwn trwy blannu dôl bywyd gwyllt sylweddol. Trwy ganiatáu i wrych a choed presennol y ffin ddeheuol dyfu, mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r effaith weddilliol yn lleihau'r effaith andwyol fechan i ychydig neu ddim effaith andwyol y tu hwnt i 7-10 mlynedd. (IR 200)
13. Cymerwyd nifer o safbwyntiau ("VP") ar yr hawl dramwy gyhoeddus yn croesi'r caeau rhwng Fferm Meadowvale a Fferm Brynwell (VP4). Cymerwyd safbwynt ychwanegol VP5 (Dogfen A22) o hawl dramwy gyhoeddus i'r gogledd o Fferm Meadowvale yn edrych i'r gogledd-orllewin tuag at y safle o dir uwch. Mae'r olygfa ddiwethaf o'r safle yn fwy gweladwy na safbwynt VP4 oherwydd ei uchder, ond mae'r olygfa o'r safle'n bellach i ffwrdd. Er byddai defnyddwyr y llwybr troed yn cerdded o'r dwyrain i'r gorllewin, byddent yn cael y newid yn yr olygfa wrth edrych i'r gogledd o'r pwynt hwn. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Cyngor BM yn disgrifio'r newid yn yr olygfa hon yn dresmasiad sylweddol ar gymeriad yr ardal er bod patrymau'r caeau'n cael eu cynnal. (IR 201)
14. Mae'r Arolygydd o'r farn bod yr olygfa'n fwy eang, gan gynnwys golygfa ehangach y dyffryn sy'n cynnwys brynau, llethrau coediog, caeau agored gerllaw a dylanwadau dyn ar ffurf lein a pheilonau trydan a Fferm Brynwell yn y blaendir. Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig, er ei fod yn weladwy yn y pellter canolig, yn brif nodwedd ar yr olygfa oherwydd byddai llethr donnog y safle yn cael ei meddalu'n sylweddol gan goed a gwrychoedd ffiniol. Cytuna'r Arolygydd for yr effaith, o VP5, yn fwy na lleol, ac y byddai'n nodwedd sy'n tynnu sylw mewn golygfa sy'n ddeniadol fel arall. Fodd bynnag, daw'r Arolygydd i'r casgliad y byddai'n cael effaith andwyol gymedrol ar yr ATA yn y safbwynt hwn, ond ni fyddai'n effaith sylweddol. (IR 202)
15. Cytuna'r Arolygydd â'r LVIA (a'r adendwm) fod y safle'n aneglur y tu ôl i goed, hyd yn oed yn y gaeaf, o'i weld o Gwrt-yr-ala. Mae'r Arolygydd o'r farn y byddai rhai golygfeydd rhannol o'r safle o Gaer Caerau, ac ar y cyd â Fferm Solar Woden Park; fodd bynnag, caiff yr olygfa ei hidlo gan goed a gwrychoedd ac ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn amlwg a dim ond yn rhannol weladwy. Cytuna'r Arolygydd â'r LVIA fod yr effaith yn cael ei hasesu'n un ddibwys ac nid andwyol. (IR 203)
16. O ran effaith gronnus, nodi'r Arolygydd nad oedd Fferm Solar Woden Park i'w gweld o fewn y safle arfaethedig o ystyried y gwrych trwchus ac uchel sydd o'i hamgylch yn ffinio â safle'r cais. Prin y byddai golygfeydd cyfunol o Woden Park a'r datblygiad arfaethedig ac ni fyddent yn sylweddol. Byddai'r olygfa a nodwyd o Gaer Caerau o effaith gronnus yn ddibwys yn yr olygfa lydan a byddai'n cael ei hidlo gan goed a gwrychoedd. (IR 204)
17. Mae PCC (paragraff 5.9.21) yn cynghori y dylai datblygwyr, lle bynnag y bo modd, ystyried sut i osgoi effeithiau andwyol, neu eu lleihau fel arall, drwy ystyried lleoliad, graddfa, dyluniad a mesurau eraill yn ofalus. Eglura'r ymgeisydd mai un o'r mesurau a ddefnyddir i leihau amlygrwydd yr araeau solar a'r offer cysylltiedig o'r safbwyntiau cyhoeddus agosaf yw osgoi defnyddio'r caeau gerllaw'r trac sy'n ffinio â llawer o'r safle. Yn yr achos hwn, byddai'r rhan ddeheuol o'r safle yn cael ei phlannu â dôl blodau gwyllt. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y cynllun ar y cyfan yn cydymffurfio â'r cyngor polisi hwn. (IR 205)

18. Am y rhesymau uchod, mae'r Arolygydd o'r farn na fyddai effaith sylweddol ar gymeriad a mwynder gweledol y dirwedd. Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar y dirwedd gyfagos ac felly mae'n cyd-fynd â maen prawf 1 polisi 18 Cymru'r Dyfodol. Mae'r Arolygydd yn fodlon na fyddai'r cynllun yn gwrthdaro â darpariaethau amddiffynnol polisiâu MD1(1) MG17, SP10 ac MD19 CDLI Cyngor BM, sef y bydd datblygiad ynni adnewyddadwy yn cael ei ganiatáu lle nad oes effaith annerbyniol ar bwysigrwydd tirwedd a chymeriad yr ardal. (IR 206)

Asedau Treftadaeth

19. Mae'r Asesiad Archaeolegol a Threftadaeth ("AHA") yn nodi nad yw'r safle'n cynnwys unrhyw asedau treftadaeth. Nid yw'r AHA yn nodi unrhyw effaith ar asedau hanesyddol sy'n deillio o newidiadau niweidiol i'w lleoliad. Mae CADW yn fodlon bod radiws 1km yr ardal astudio drwy'r parthau ZTV yn briodol. Mae CADW yn cydsynio â'r AHA na fyddai unrhyw effaith ar leoliad asedau dynodedig. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y dull a ddefnyddiwyd yn yr AHA (a'r adendwm) yn gyson â Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol ("TAN 24"). Yn seiliedig ar y parthau ZTV, daw'r asesiad i'r casgliad nad yw'r cynllun yn gallu effeithio ar safle'r rhan fwyaf o asedau dynodedig yn ardal yr astudiaeth. Mae'r asesiad yn ystyried tair Heneb Gofrestredig, tri Adeilad Rhestredig, a dau o Barciau a Gerddi Cofrestredig. (IR 207-210)
20. Ni nodir unrhyw effeithiau andwyol ar Henebion Cofrestredig ym Mhont Lecwydd, Gwersyll Caerau a Fila Rufeinig Trelái. O ran Gwersyll Caerau, cred yr Arolygydd, er y byddai newid bach iawn i leoliad ehangach yr Heneb Gofrestredig, na fyddai hyn yn arwain at unrhyw effaith andwyol ar ei harwyddocâd ac yn yr un modd mewn perthynas â lleoliad Eglwys Restredig Gradd II y Santes Fair o fewn yr Heneb Gofrestredig. Mae'r Arolygydd yn cytuno na fyddai effaith andwyol ar arwyddocâd a lleoliad Gardd a Pharc Cofrestredig Cwrt-yr-ala (Gradd II) a'r Parc a'r Ardd Hanesyddol Gradd II* yng Nghoeddarhydyglyn. (IR 211)
21. O ran adeilad rhestredig Gradd II Fferm Brynwell, cytuna'r Arolygydd fod ei arwyddocâd yn deillio o'i werth amlwg o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol. Noda'r Arolygydd y byddai newid yn yr olygfa o'r ased tua'r gogledd a'r safle, er bod polion telegraff a pheilonau trydan eisoes yn bresennol. Nodir bod y paneli hefyd yn debygol o gael eu sgrinio a'u hidlo mewn golygfeydd. Byddai'r newid yn safle'r ased i'w weld i'r gogledd, ond o fewn y cwrt deheuol a phrif agweddau'r adeilad ni fyddai unrhyw newid. Byddai'r cysylltiad amaethyddol yn dal i fod yn amlwg iawn yn y lleoliad hwn. Daw'r Arolygydd i'r casgliad na fyddai'r cyfraniad a wneir gan y safle yn gyffredinol yn newid cymaint nes ei fod yn lleihau ei gyfraniad at safle Fferm Brynwell. Byddai'r adeilad yn dal i gael ei ddeall mewn perthynas â'i amgylchoedd amaethyddol, ac nid yw ei safle topograffig yn newid, ac ni niweidir ei ddiddordebau pensaernïol a hanesyddol. (IR 212-216)
22. O ran archaeoleg gladdedig, mae'r data sylfaenol yn dangos presenoldeb meddiannaeth ganoloesol ac yn cyfeirio at y potensial i'r safle gynnwys olion archeolegol cyfoes. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod asesiad archeolegol wedi'i wneud yn unol â pholisïâu MD8 a SP10 o'r CDLI, ac mae'n dangos, gyda chmau lliniaru addas wedi'u sicrhau gan yr amodau a argymhellir, fod yr effaith ar archaeoleg y safle yn dderbyniol. (IR 217-219)
23. Cred yr Arolygydd nad oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar asedau treftadaeth adeiledig cenedlaethol a warchodir yn statudol a bod y cynnig felly'n cydreded â maen prawf 6 polisi 18 Cymru'r Dyfodol. Ni fyddai'r cynllun yn gwrthdaro â pholisïâu SP10 ac MD8 o'r CDLI. (IR 220)

Ecoleg

24. Noda'r Arolygydd fod y safle'n cynnwys nifer o gaeau o borfa wedi'i gwella a glaswelltir corsiog wedi'u croestorri a'u ffinio gan rwydwaith o wrychoedd. Mae'r safle wedi'i ffinio i'r gorllewin gan goridor nant Coetir Lled-Naturiol Hynafol ("ASNW") ac fe'i hamgylchynir gan dir amaethyddol pellach a fferm solar bresennol i'r gogledd. Mae dau bwl oddi ar y safle i'r gorllewin a gafodd eu hasesu am eu potensial i gynnal Madfallod Dŵr Cribog. Nodir hefyd fod y cilfachau pasio ar hyd Gower Lane i'r safle yn cynnwys cymysgedd o gilfachau presennol, ymylon glaswelltir tila wedi'i led-wella, prysgwydd, a gwrychoedd sy'n brin o rywogaethau. (IR 221)

Safleoedd Dynodedig

25. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Asesiad Effaith Ecolegol ("AEE") Mawrth 2022 yn dod i'r casgliad, o ystyried natur y datblygiad, fod effeithiau sylweddol ar Safle Morol Ewropeaidd Aber Hafren (tua 5.1km i'r de-ddwyrain o'r safle) yn ystod y gwaith adeiladu a datgomisiynu yn annhebygol iawn, ac ni ragwelir unrhyw effeithiau wrth weithredu. Bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ("CEMP") yn cael ei roi ar waith i osgoi unrhyw effeithiau uniongyrchol llygredd yn ystod y gwaith adeiladu a datgomisiynu a bydd clustogfa o 10m yn cael ei chynnal i Nant Garw na chaiff unrhyw waith adeiladu ddigwydd ynddi er mwyn ddiogelu'r coridor wrth weithredu. Mae'r Arolygydd yn fodlon nad oes unrhyw gysylltiadau swyddogaethol rhwng safle'r cais ac Ardal Gadwraeth Arbennig Coed Ffawydd Caerdydd ac ni ragwelir unrhyw effeithiau. (IR 222)
26. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") wedi argymhell y dylid gosod amodau er mwyn sicrhau'r gwelliannau bioamrywiaeth a'r camau lliniaru angenrheidiol a ddarperir gan y cynllun. Noda'r Arolygydd nad oes pryderon wedi'u codi o gwbl ynghylch effaith y datblygiad arfaethedig mewn perthynas â'r ddau safle Ewropeaidd, o ystyried y pellter i'r ardaloedd hyn. Mae'r Arolygydd yn fodlon, yn amodol ar amodau, na fyddai'r cynllun yn niweidio unrhyw un o'r safleoedd hyn sy'n bwysig yn rhyngwladol, ac ni nodir unrhyw effeithiau sylweddol. (IR 223-224)
27. Mae AEE Mawrth 2022 yn nodi'r Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur ("SINC") agosaf i'r safle sef Coed y Dylluan, Coed Lecwydd a Choed West Hill. Mae AEE Mawrth 2022 yn nodi 12 SINC anstatudol o fewn 2km i'r safle. Mae'r Arolygydd yn nodi y daw'r AEE i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau uniongyrchol yn cael eu rhagweld. (IR 225)
28. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ("SoDdGA") Cwm Cydfin tuag 1.7km i'r de-ddwyrain o'r safle o fewn casgliad mwy o goetiroedd yng nghwm un o lednentydd bychan afon Elái. Nid yw cwrs dŵr Nant Garw, sydd ar ffin orllewinol y safle, yn un o lednentydd SoDdGA Nant Cydfin. Felly, mae'r Arolygydd yn nodi nad oes llwybrau o Nant Garw a fyddai'n effeithio ar SoDdGA Cwm Cydfin, ac ni ragwelir unrhyw effeithiau o'r datblygiad. Mae CNC yn cadarnhau nad oes llwybr trwy ddŵr wyneb o'r safle i'r SoDdGA, a bod Coed Lecwydd ac ardaloedd o goetir yn ffurfio clustogfa rhwng y safle a'r SoDdGA. Dywed CNC fod y SoDdGA yn sensitif i gynnydd yn y lefelau nitrogen ac asidedd o lygredd aer. Mae Nant Cydfin i'r dwyrain o B4267 Ffordd Lecwydd. Er bod y llwybr mynediad i'r safle yn pasio rhan o SoDdGA Cwm Cydfin, mae CNC yn nodi nad yw'r Datganiad Trafnidiaeth Diwygiedig yn rhagweld cynnydd sylweddol mewn traffig yn teithio ar hyd y llwybr hwnnw gydag 8 cerbyd y dydd ar y mwyaf yn ystod y cyfnod adeiladu 6 wythnos. O ystyried bod cynllun rheoli llwch wedi'i ddarparu ac os cedwir at y mesurau, mae CNC yn fodlon y dylai fod risg isel o effaith ar SoDdGA Cwm Cydfin. Mae'r Arolygydd yn cytuno nad oes effeithiau sylweddol tebygol ar y SoDdGA a'r SINC agosaf. (IR 226- 227)

29. Noda'r Arolygydd y daw'r AEE i'r casgliad na fydd y cynnig yn arwain at unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y coetir wrth adeiladu neu weithredu'r fferm solar. Mae'r Arolygydd yn cytuno. (IR 228)

Rhywogaethau Gwarchodedig

30. Noda'r Arolygydd fod arolygon wedi'u cynnal ar y prif safle, yr ardal gosod i lawr a'r mannau pasio. Nid yw CNC yn codi unrhyw fater mewn perthynas â'r arolygon cynefin cam 1 estynedig, yn amodol ar yr amodau'n mynnu manylion gan gynnwys mesurau osgoi, rhagofalus a lliniaru. Noda'r Arolygydd sylwadau CNC y dylid mabwysiadu dulliau rhagofalus er mwyn osgoi effeithiau ar y pathewod, a bod y pellteroedd clustogi a nodwyd yn cael eu cynnal ar gyfer coetir (5m) a gwrychoedd (2m). (IR 229)
31. Noda'r Arolygydd na ddychwelodd y chwiliad data unrhyw gofnodion o fadfallod dŵr cribog o fewn 2km i'r safle. Daw'r AEE i'r casgliad na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar byllau oddi ar y safle. Mae'r Arolygydd yn fodlon y byddai mesurau atal llygredd a rheoli dŵr ffo arfer da safonol ar waith yn ystod y gwaith adeiladu fel y'u nodir mewn amodau. Cred yr Arolygydd na fyddai unrhyw effeithiau datgysylltu neu ddarnio cynefin hirdymor yn digwydd a allai effeithio'n andwyol ar statws cadwraeth ffafriol amffibiaid. (IR 230)
32. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru ("SEWBRc") wedi dychwelyd wyth cofnod o foch daear yn digwydd o fewn 2km i'r safle. Mae'r AEE yn argymhell y dylid defnyddio mesurau rhagofalus gan gynnwys ymweliad ar droed gan ecolegydd i chwilio am setiau newydd cyn i'r gwaith ddechrau. Noda'r Arolygydd hefyd y dychwelodd y chwiliad data gofnodion o chwe rhywogaeth o ystlumod o leiaf o fewn 4km i'r safle gan gynnwys ystlumod pedol lleiaf. Cred yr Arolygydd na ddylid caniatáu i oleuadau adeiladu ddisgyn allan ar ymylon coetir, gwrychoedd a nodweddion llinol eraill ac y dylid rheoli hyn gan amod. (IR 231-232)
33. Dychwelodd y chwiliad data hefyd gofnodion o nifer o rywogaethau adar gan gynnwys llawer o bwys cadwraeth o fewn 2km i'r safle. Roedd y rhain yn cynnwys y gwcw ac aderyn yr eira sy'n rhywogaethau o bwys cadwraeth ar y rhestr goch. Cofnodwyd y rhywogaethau rhestredig ambr canlynol hefyd o fewn 2km i'r safle, sef glas y dorlan, aderyn y to a'r cudyll coch. Cofnodwyd cipolygon anecdotaidd ar goch y berllan, y fronfraith, bras melyn, telor penddu, a'r ehedydd yn ystod y gwaith arolwg. Serch hynny, noda'r Arolygydd nad oedd arwydd bod y rhywogaethau'n nythu ar y safle ac nad oedd y caeau yn cynnig cyfleoedd nythu addas. Cred yr Arolygydd fod y coed a gwrychoedd sy'n amgylchynu ac yn croestorri'r safle yn debygol o ddarparu cynefin nythu addas, a bod y rhain i'w cadw fel rhan o'r cynigion. Mae'r Arolygydd yn fodlon fod y cynefinoedd y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt (y caeau glaswelltir wedi'i wella a chorsiog) yn cynnig bach iawn o botensial i gynnal adar sy'n nythu ar y ddaear. Sylwa'r Arolygydd y daeth yr AEE i'r casgliad bod gwerth prin y cynefinoedd ar y safle a'r digonedd o gynefinoedd tebyg o well ansawdd sydd ar gael yn y dirwedd ehangach yn golygu bod y safle'n annhebygol o gynnal cynulliad sylweddol o adar bridio a'i fod o bwysigrwydd lleol i adar bridio. (IR 233-235)
34. Dychwelwyd dau gofnod o bathewod cyll o fewn 2km i'r safle. Sylwa'r Arolygydd fod gan y safle botensial i fod o bwysigrwydd lleol i'r rhywogaeth. Mae'r AEE yn asesu nad oes unrhyw effeithiau sylweddol ar bathewod yn cael eu rhagweld gan nad oes gwrychoedd sylweddol am gael eu gwaredu yn rhan o'r datblygiad. Noda'r Arolygydd hefyd, os gwelir wedyn fod pathewod yn bresennol ar y safle, efallai y bydd angen trwydded gan CNC cyn y gwaith. (IR 236)

35. Ni ddychwelodd y chwiliad data gofnodion o lygod y dŵr o fewn 2km i'r safle ac ystyriwyd bod cynefin y safle yn anaddas i'r rhywogaeth. Dychwelwyd naw cofnod o ddyfrgwn gan y chwiliad data gyda'r rhan fwyaf yn ymateb i afon Elái tuag 1.3km i'r dwyrain o'r safle. Dychwelodd y chwiliad data gofnodion o'r pedair rhywogaeth gyffredin o ymlusgiaid a geir yn y DU o fewn 2km i'r safle. Mae potensial i wrychoedd gynnal ymlusgiaid cyffredin fel nadroedd defaid ac efallai nadroedd y glaswellt. Daw'r Arolygydd i'r casgliad y gallai'r safle fod o bwysigrwydd lleol i rywogaethau cyffredin o ymlusgiaid. (IR 237)

Ardal gosod i lawr a mannau pasio

36. Noda'r Arolygydd fod pryderon wedi'u mynegi gan Gyngor BM a thrigolion ynghylch maint y gwrychoedd i'w gwaredu mewn cysylltiad â'r ardal/ymlediad gosod i lawr a'r lleoedd pasio. Byddai symudiad cerbydau a pheiriannau trwm yn osgoi cael effaith ar goetir a gwrychoedd a, lle byddai angen, byddai ffensys amddiffynnol yn cael eu codi. Byddai bancwyr yn cael eu defnyddio i gyfeirio cerbydau ac i osgoi'r angen i waredu llystyfiant pellach. Sylwa'r Arolygydd y rhagwelir y bydd Clerc Gwaith Ecolegol yn cymryd camau rhagofalus cyn gwaredu rhannau perthnasol o wrych ac yn chwilio am adar nythu a phathewod. Bydd rhan isaf y gwrych yn cael ei harchwilio am ddraenogod, amffibiaid, ymlusgiaid a madfallod dŵr cribog. Ar unrhyw adeg os darganfyddir rhywogaethau gwarchodedig yn yr ardaloedd hyn, bydd y gwaith clirio'n dod i stop a cheir cyngor gan CNC gyda'r bwriad o gael trwydded pe bai angen hynny. (IR 238-239)
37. Yn yr ardal gosod i lawr, a fydd yn cael ei defnyddio i storio deunyddiau dros dro a'u trosglwyddo i'r safle, derbynia'r Arolygydd y byddai'r glaswelltir yn dirywio yn sgil cywasgu ac aflonyddu ar y ddaear. Fodd bynnag, oherwydd natur dros dro'r cynnig, ystyria'r Arolygydd y bydd yr effeithiau hefyd yn rhai dros dro, ac y bydd y glaswelltir yn cael ei adfer pan fydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau. Mae'r Arolygydd yn fodlon y bydd gwaith clirio prysgwydd ar gyfer cilfachau pasio 6, 7, 9 a 10 yn cael ei wneud yn dilyn yr un dull rhagofalus ac ar gyfer cilfachau pasio eraill y bydd matiau atgyfnerthu'r ddaear dros dro yn cael eu defnyddio i leihau effaith cywasgu ar systemau gwraidd coed cyfagos. (IR 240-241)

Gwelliannau bioamrywiaeth

38. Mae'r gwelliannau bioamrywiaeth a gynigir yn cynnwys plannu 1.2ha o ddôl blodau gwyllt i'r de o'r safle. Cred yr Arolygydd y bydd adolygiad o weithgareddau rheoli'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol ("LEMP") bob pum mlynedd am y cyfnod sy'n cwmpasu rhychwant oes y parc solar arfaethedig yn sicrhau buddion hirdymor i bob cynefin sy'n cael ei gadw, ei wella a'i greu. Mae'r AEE yn nodi'r bwriad i blannu i lenwi bylchau mewn gwrychoedd ar draws y safle ac i adfer gwrychoedd a gwella cysylltedd cynefinoedd. Noda'r Arolygydd y bydd gwaith rheoli gwrychoedd a gedwir yn y safle yn ceisio sicrhau uchder o 3m o leiaf a lled o 2m. Byddai gwrychoedd yn cael eu torri ar gylchdro 3 blynedd o leiaf, gyda thraean o'r gwrych yn cael tyfu am 5 i 7 mlynedd o leiaf, gan ganiatáu i llystyfiant ddwyn ffrwyth, gan ddarparu ffynhonnell fwyd. Byddai ymylon caeau a gadwyd yn cael eu hadu â chymysgedd blodau gwyllt neu laswelltir llawn o rywogaethau. Byddai blychau ystlumod ac adar yn cael eu gosod ar goed a gadwyd o fewn gwrychoedd i wella'r safle ar gyfer bioamrywiaeth. (IR 242-243)
39. Mae'r Arolygydd o'r farn bod y mesurau sy'n fuddiol i fioamrywiaeth sydd wedi'u hymgorffori o fewn y cynllun a'r rhai a fyddai'n cael eu sicrhau drwy'r amodau a argymhellir yn sylweddol. Ystyria'r Arolygydd fod y rhain yn unol â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth yn Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Hefyd, yn unol â maen prawf 5 polisi 18 Cymru'r Dyfodol, mae'r cynnig yn cynnwys mesurau gwella bioamrywiaeth i ddarparu budd ecolegol net. (IR 244)

40. Mae'r Arolygydd o'r farn na fyddai'r cynllun yn achosi unrhyw effeithiau annerbyniol ar safleoedd dynodedig statudol cenedlaethol er cadwraeth natur (a'r nodweddion y'u dynodwyd ar eu cyfer), nac ar gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig, a'i fod trwy hynny'n bodloni maen prawf 4 o bolisi 18 Cymru'r Dyfodol a pholisïau MD9, MG19, MG20 a MG21 y CDLI. (IR 245)

Llifogydd

41. Sylwa'r Arolygydd fod y llwybr ceblau o fewn parthau B, C1 a C2 lle bydd yn croesi afon Elái dros Bont Lecwydd i'r pwynt cysylltiad. Byddai'r ceblau'n cael eu llwybro drwy'r agorfeydd cebl presennol o fewn ymyl y bont. (IR 246)
42. Mae PCC, ym mharagraff 6.6.22, yn cynghori y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull rhagofalus o osgoi datblygiad yn gadarnhaol mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd o'r môr neu o afonydd. Bydd llifogydd dŵr wyneb yn effeithio ar ddewis lleoliad a chynllun a dyluniad cynlluniau, a dylid ystyried y ffactorau hyn yn gynnar wrth lunio cynigion datblygu. (IR 247)
43. Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 ("TAN 15") yn rhoi mwy o fanylion ac yn nodi, ym mharagraff 6.2, na ddylid caniatáu datblygiad hynod fregus ym mharth C2. Dim ond o fewn parthau C1 a C2 y dylid caniatáu pob datblygiad newydd arall os penderfynir gan yr awdurdod cynllunio ei fod wedi'i gyfiawnhau yn y lleoliad hwnnw. Cyfiawnheir datblygiad dim ond os gellir dangos: a. bod angen ei leoliad ym mharth C i gynorthwyo, neu fod yn rhan o, fenter adfywio awdurdod lleol neu strategaeth awdurdod lleol sy'n ofynnol i gynnal anheddiad presennol; neu b. bod angen ei leoliad ym mharth C i gyfrannu at amcanion cyflogaeth allweddol a gefnogir gan yr awdurdod lleol, a phartneriaid allweddol eraill, i gynnal anheddiad neu ranbarth presennol; ac, c. ei fod yn cydweld ag amcanion PCC ac yn bodloni'r diffiniad o dir a ddatblygwyd yn flaenorol; a, d. bod canlyniadau posibl digwyddiad llifogydd ar gyfer y math penodol o ddatblygiad wedi'u hystyried, ac o ran y meini prawf a geir yn adrannau 5 a 7 ac atodiad 1 y canfuwyd eu bod yn dderbyniol. (IR 248)
44. Mae'r Arolygydd yn nodi nad oes amheuaeth nad yw'r cynllun yn bodloni unrhyw un o'r tri cyntaf o'r profion cyfiawnhad uchod. Mae'r ymgeisydd yn nodi bod y ceblau'n rhan o'r cais DAC ond yn nodi y gallai'r gwaith ceblau, ar ei ben ei hun, fod yn ddatblygiad a ganiateir o dan Atodlen 2, Rhan 17 o Orchymyn (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r ymgeisydd yn nodi, pe bai'r gwaith ceblau'n cael ei wneud gan Western Power Distribution fel y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu gan ddefnyddio ei bwerau fel Ymgymmerwr Statudol, yna byddai hwn yn lle i gilio iddo a fyddai'n negyddu'r angen am y prawf cyfiawnhad yn TAN 15. Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau na fyddai'r ceblau'n cael eu llenwi â hylif ac y byddent yn cael eu gwarchod ac y gellid datgysylltu pŵer o bell pe bai argyfwng llifogydd. Mae CNC yn fodlon ar yr ymatebion hyn mewn perthynas â chanlyniadau llifogydd. (IR 249)
45. Mae'r Arolygydd yn nodi bod yr ymgeisydd yn cyfeirio at y prawf dilyniannol dewis safle fel cyfiawnhad nad oes unrhyw safle addas arall yn cael ei nodi o fewn yr ardal chwilio. Cyfeirir hefyd at benderfyniad fferm solar Llanwern (cyf. cais: 3150137) lle derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ganfyddiad yr Arolygydd fod y cynllun solar dan ystyriaeth wedi dod o fewn yr eithriad hwn o baragraff 5.3. Mae hyn yn esbonio y dylid trin rhai defnyddiau fel eithriadau i'r rheol gyffredinol mewn perthynas â bygythiad llifogydd i ddefnyddiau. Mae'r rhain yn cynnwys iardiau cychod, marinas, gwaith hanfodol sydd ei angen mewn basnau angori, a datblygiad sy'n gysylltiedig â chamlesi. Nid ydynt yn destun y rhan gyntaf o'r prawf cyfiawnhad (fel y nodir yn i i iii uchod) ond maent yn destun y rhan o'r prawf sy'n ymwneud â derbynioldeb canlyniadau (iv). (IR 250-251)

46. Mae'r rhan hon o'r cynnig yn ymwneud â'r ceblau lle mae lle tebygol i gilio iddo a darperir cyfiawnhad o ran cysylltedd grid a'r nifer uchel o oriau heulwen fel yn achos penderfyniad Llanwern. Mae'r Arolygydd o'r farn bod rhesymau da dros leoli cydrannau ategol y cynnig o fewn y parthau risg llifogydd hyn ond yn croesi drostynt, fel eithriad i'r tri phrawf cyfiawnhad cyntaf. (IR 252)
47. Mewn ymateb i'r pedwerydd o brofion cyfiawnhad TAN 15, mae Asesiad Canlyniadau Llifogydd ("FCA") wedi cyd-fynd â'r cais. Yn dilyn cyhoeddi Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ("FMfP") cyflwynodd yr ymgeisydd ym mis Mawrth 2022 FMfP Nodyn Dylunio Technegol a'r mapiau perthnasol. Sylwa'r Arolygydd fod yr asesiadau'n nodi bod safle'r ceblau ar Bont Lecwydd yn debygol o fod uwchlaw unrhyw ddigwyddiad llifogydd o afon Elái yn y lleoliad hwn. Ni fyddai gosod y ceblau o fewn seilwaith presennol y briffordd yn cynyddu perygl llifogydd i dir trydydd parti. Mae'r Nodyn Dylunio Technegol ar FMfP yn cadarnhau bod ehangder y Parthau Llifogydd newydd (1, 2 a 3) tua'r un ehangder â'r Mapio Cyngor Datblygu ("DAM") presennol. (IR 253)
48. Sylwa'r Arolygydd, o adolygu, fod y gwaith mapio a ddarparwyd gan CNC yn cadarnhau, er bod ehangder yr ardal mewn perygl o lifogydd wedi newid ychydig yn yr FMfP newydd, o ystyried natur a maint y datblygiad arfaethedig, ystyria'r Arolygydd fod y cynnig yn dderbyniol yn hyn o beth. Mae'r diweddariadau/newidiadau i'r eangderau llifogydd a'r rhai a ddangosir o fewn yr FCA yn cynrychioli'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer asesu risg llifogydd yn y lleoliad hwn. (IR 254-255)

Hydroleg y safle

49. Mae diweddariad yr FCA yn nodi y bydd paneli ffotofoltäig arfaethedig yn cael eu gosod ledled y prif safle, lle nodwyd risgiau llifogydd dŵr daear a dŵr wyneb trostir posibl. Noda'r Arolygydd y bydd unrhyw lifoedd llifogydd dŵr daear a dŵr wyneb trostir bas yn gallu lifo heb eu rhwystro o dan y paneli arfaethedig, a rhwng coesau'r ffrâm fodiwlaid a gynigir. (IR 256)
50. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y strategaeth ddraenio arfaethedig ar gyfer y safle yn defnyddio'r drefn ddraenio naturiol a'r topograffi presennol er mwyn sicrhau y bydd unrhyw lifoedd trostir, er nad ydynt yn cynyddu o gymharu â'r sefyllfa bresennol, yn cael ffoi dros y tir fel 'llenlif' bas i'r cymoedd sy'n rhedeg drwy'r safle ac yn gyfagos i'r safle, fel y sefyllfa bresennol. Sylwa'r Arolygydd fod yr FCA yn tybio y bydd gorchudd glaswellt yn cael ei gadw ledled y safle (ac eithrio'r trac mynediad graeanog a gynigir a chlosydd adeiladu), a bydd hyn felly'n cynnal y drefn hydrolegol bresennol, heb arwain at unrhyw gynnydd yng nghyfaint na dwyster dŵr ffo. Ystyrir na fyddai patrymau draenio dalgylch yn cael eu newid na llwybrau llif ffafriol yn cael eu creu'n anfwriadol. Byddai'r newid mewn gorchudd tir yn cyfrannu at gyfradd hidlo fwy naturiol gyda llystyfiant yn tyfu o dan y paneli sy'n rhyng-gipio dŵr glaw yn disgyn rhwng y bylchau yn y paneli. Ystyria'r Arolygydd y byddai'r mesurau hyn, sy'n ymgorffori lleiniau clustogi wrth ymyl gwrychoedd a'r ddôl blodau gwyllt arfaethedig fel rhan o'r safle, yn esgor ar ymateb draenio ffafriol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. (IR 257-258)
51. Daw'r Arolygydd i'r casgliad bod y cynllun yn gyson â'r polisi risg llifogydd a amlinellir yn PCC a TAN 15 ac yn gyson â pholisi MD7 y CDLI a pholisi EN14 CDLI Caerdydd. Mae'r Arolygydd yn fodlon y dyluniwyd elfennau ceblau'r cynllun i wrthsefyll yr effeithiau newid hinsawdd a ragwelir ar lifogydd a'u bod yn dangos y gallai risg a chanlyniadau llifogydd gael eu rheoli'n dderbyniol. (IR 259)

Amodau byw - sŵn

52. Noda'r Arolygydd fod asesiad sŵn technegol yn cyd-fynd â'r cais. Adolygodd yr arbenigwr sŵn ar gyfer deiliaid Fferm Beggan yr asesiad effaith sŵn ac ystyriai y byddai effeithiau sŵn sylweddol yn annhebygol o ddigwydd ond byddai angen sicrwydd y gellir lliniaru a rheoli unrhyw effaith andwyol drwy osod amod cynllunio. Noda'r Arolygydd fod Cydwasanaethau Rheoleiddio Cyngor BM yn cytuno ag asesiad sŵn yr ymgeisydd a'r manylion diwygiedig a bod amod cynllunio addas yn cael ei osod. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod angen amod priodol i sicrhau nad yw amodau byw trigolion cyfagos yn cael eu niweidio gan y datblygiad mewn perthynas â sŵn. (IR 260-262)
53. Cred yr Arolygydd nad oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar ffurf sŵn, ac felly bod y cynnig yn cydreddeg â maen prawf 7 polisi 18 Cymru'r Dyfodol. Mae'n dilyn bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisiâu MD2(8) a MD7(4) y CDLI. (IR 263)

Diogelwch Traffig a Phriffyrdd

54. Noda'r Arolygydd nad yw'r awdurdod priffyrdd lleol yn codi unrhyw wrthwynebiad i'r manylion a gyflwynwyd yn amodol ar osod amodau. Mae'n anorfod y byddai rhywfaint o darfu ar draffig lleol yn ystod y cyfnod adeiladu, ond nid oes gwrthwynebiad technegol gan Gyngor BM i'r llwybr traffig adeiladu trwy Landochau. Mae gwybodaeth yr ymgeisydd yn nodi y byddai amseru a nifer y cerbydau adeiladu o gymharu â maint y traffig sy'n defnyddio'r ffordd hon yn ddibwys i lifoedd traffig cyffredinol. Mae'r Arolygydd yn fodlon nad oes tystiolaeth dechnegol i wrth-ddweud y canfyddiad hwn. (IR 264-267)
55. Er hynny, mae'r Arolygydd o'r farn y byddai defnyddio cyfundrefnau rheoli traffig priodol yn lleihau unrhyw anawsterau. Ni ragwelir y byddai angen cau Gower Lane yn ystod cyfnod adeiladu'r datblygiad. Beth bynnag, byddai'r awdurdod priffyrdd lleol yn cadw rheolaeth dros unrhyw achosion arfaethedig o gau ffyrdd. Ym marn yr Arolygydd, mae'r trefniadau traffig a mynediad ar gyfer y cyfnod adeiladu dros dro yn dderbyniol ac nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn niweidio diogelwch priffyrdd yn ystod y cyfnod hwn. (IR 268-269)
56. Daw'r Arolygydd i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar y rhwydwaith trafnidiaeth drwy gludo cydrannau yn ystod y cyfnod adeiladu ac felly bod y cynnig yn cyd-fynd â maen prawf 9 polisi 18 Cymru'r Dyfodol, polisi MD2 y CDLI a pholisi T6 CDLI Caerdydd. (IR 270)

Buddion y Cynllun

57. Mae'r Arolygydd yn nodi y byddai capasiti 25 MW y cynllun yn cynhyrchu digon o bŵer adnewyddadwy i bweru hyd at 7,500 o gartrefi dros ei hyd oes weithredol ac i ddadleoli rhyw 10,050 tonnelli o CO₂ y flwyddyn. Ystyria'r Arolygydd fod hyn yn gyfraniad sylweddol at gynhyrchu ynni o adnodd adnewyddadwy ac at ostwng allyriadau nwy tŷ gwydr. Mae cyfraniad o'r fath yn sylweddol yng nghyd-destun targedau Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. (IR 271)

58. Mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r cyfleuster storio batris a ddarperir gan yr unedau cynhwysydd arfaethedig yn sicrhau y gellir rheoli'r cyflenwad ynni a gynhyrchir gan y paneli er mwyn lleihau'r camgymhariad rhwng y galw brig a'r cyflenwad. Cydnabyddir yn PCC fanteision defnyddio mwy o storfa ynni i ddarparu cydbwysedd yn hyn o beth. Mae polisi 17 Cymru'r Dyfodol yn cadarnhau cefnogaeth gref Llywodraeth Cymru i egwyddor datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob technoleg ac ar bob graddfa er mwyn diwallu ein hanghenion ynni yn y dyfodol. Eglura fod rhaid i benderfynwyr, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, roi pwys sylweddol i'r angen i gyflawni ymrwymadau rhyngwladol Cymru a chyrraedd targed Llywodraeth Cymru i gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030 i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. (IR 272-274)

Ystyriaethau Eraill

59. Mae'r Arolygydd yn nodi bod safle'r cais wedi'i ddewis oherwydd cyfuniad o resymau (fel y manylir yn y Prawf Dilyniant Dewis Safle) gan gynnwys y nifer uchel o oriau heulwen; nid yw'r tir amaethyddol yn cael ei ddosbarthu fel 'gorau a mwyaf amlbwrpas', ac argaeledd safle digon mawr i ganiatáu arbedion maint a fyddai'n gwneud cynllun yn hyfyw. Priodoledd hanfodol y safle, a'r un sy'n ei gysylltu â'r ardal gyfagos, yw ei agosrwydd at linellau pŵer 132 kV sydd â'r gallu i dderbyn y trydan a fyddai'n cael ei gynhyrchu. (IR 276)
60. Bodlonwyd yr Arolygydd, er bod y safle y tu allan i'r 'Ardaloedd Chwilio Lleol' a nodwyd o dan Bolisi MG30 y CDLI, fod y polisi'n ei gwneud yn glir (paragraff 6.170) fod yr ardaloedd a nodwyd yn rhoi arwydd yn unig o botensial ynni solar yn hytrach nag ardaloedd penodol o dir wedi'i ddiogelu ar gyfer datblygiad solar. Nodir hefyd y daeth Cymru'r Dyfodol yn rhan o'r cynllun datblygu ym mis Chwefror 2021. Mae'r Cynllun yn cydnabod effeithiau argyfwng hinsawdd ac argyfwng ecolegol ac yn nodi blaenoriaethau, risgiau, a chyfleoedd allweddol er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Mae PCC yn cadarnhau bod Cymru'r Dyfodol yn amlinellu polisiâu Llywodraeth Cymru ar gyfer penderfynu ar gynlluniau ynni adnewyddadwy o 10MW a mwy o dan weithdrefn DAC, a'r polisiâu yn Cymru'r Dyfodol yn disodli polisiâu perthnasol y CDLI gan gynnwys polisi MG30. (IR 277)
61. Nodir bod y safle yn ardal diogelu mwynau o dan bolisi MG22 y CDLI. Mae'r Arolygydd o'r farn na fyddai'r cynnig yn gwrthdaro ag amcanion polisiâu MG22 ac MG24 o'r CDLI. (IR 278)

Amodau

62. Rwy'n fodlon bod yr amodau a argymhellwyd gan yr Arolygydd yn bodloni'r profion perthnasol yng Nghylchlythyr 016/2014 Llywodraeth Cymru: Defnyddio Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu. (IR 279-289)
63. Rwy'n nodi bod amod 3 yn pennu elfen ddatgomisiynu'r cynllun sy'n cynnwys cyflwyno Cynllun Datgomisiynu ac Adfer Safle.

Crynodeb o'r Casgliadau

64. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn arwain at effaith andwyol annerbyniol ar gymeriad tirwedd a mwynder gweledol yr ardal, asedau treftadaeth, ecoleg yr ardal a rhywogaethau gwarchodedig, llifogydd, a hydroleg, amodau byw trigolion cyfagos mewn perthynas â sŵn a llifoedd traffig a diogelwch priffyrdd. (IR 290)

65. Ym marn yr Arolygydd, y prif fuddion sy'n deillio o'r cynllun fyddai ei gyfraniad at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau CO₂. Mae'r broses o storio pŵer a gynhyrchir o'r paneli ar y safle yn dwyn buddion o ran rheoli cyfradd y llif i'r grid, er mwyn cydbwysu brigau a llifoedd cynhyrchu i gyd-fynd yn well â'r defnydd. Cred yr Arolygydd hefyd y byddai'r cynllun hefyd yn dwyn buddion cyflogaeth ac economaidd lleol. (IR 291)
66. Mae'r Arolygydd yn rhoi cryn bwys i'r buddion hyn yng ngoleuni'r gefnogaeth i gyfraniadau o'r fath ym mholisiâu 17 a 18 Cymru'r Dyfodol sy'n nodi dull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy mewn ffordd sy'n ceisio cael cydbwysedd priodol gyda diogelu buddiannau perthnasol eraill. Noda'r Arolygydd mai Cymru'r Dyfodol yw'r rhan o'r cynllun datblygu a fabwysiadwy ddiweddaraf, a'i fod yn cynnwys y polisi mwyaf uniongyrchol berthnasol i brosiectau ynni adnewyddadwy o arwyddocâd cenedlaethol. Daw'r Arolygydd i'r casgliad bod y cynnig yn cydymffurfio â CDLI Cyngor BM, ac nad oes unrhyw wrthdaro a nodwyd â CDLI Caerdydd a bod y cynnig yn cydymffurfio â'r cynlluniau datblygu. (IR 292-293)

Casgliad a Phenderfyniad

67. Cytunaf ag arfarniad yr Arolygydd o'r prif ystyriaethau, casgliadau Adroddiad yr Arolygydd a'r rhesymeg y tu ôl iddynt, ac rwy'n derbyn yr argymhelliad. Felly, drwy hyn rwy'n rhoi caniatâd cynllunio i'r prif gais DAC a'r caniatâd eilaidd, cyfeirnod DNS/3261558, yn amodol ar yr amodau yn Atodiad A i'r llythyr penderfyniad hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf LICD")

68. Rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol â Deddf LICD, gyflawni datblygiad cynaliadwy. Wrth wneud fy mhenderfyniad ar y cais, rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a nodir yn adran 5(2) o Ddeddf LICD a 'SPSF1: Canllawiau Craidd, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'. Nodir isod fy asesiad yn erbyn pob un o'r ffyrdd o weithio.

Edrych i'r tymor hir

69. Mae'r penderfyniad yn ystyried amcan ac ymrwymiad hirdymor targed Cymru i gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir trwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030 er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mabwysiadu dull integredig

70. Rwyf wedi ystyried yr effeithiau yn sgil y penderfyniad hwn ar amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, sy'n ymgorffori'r nodau llesiant a nodir yn adran 4 o Ddeddf LICD. Lle nad oes amcan yn cael ei nodi, mae effaith y penderfyniad hwn yn niwtral.

Effaith ar amcanion llesiant

- Adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol – effaith gadarnhaol
- Adeiladu economi gryfach, wyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio – effaith gadarnhaol
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud – effaith gadarnhaol.

Cynnwys pobl/Cydweithio ag eraill

71. O fewn fframwaith proses statudol o wneud penderfyniadau, sy'n cael ei llywodraethu gan weithdrefnau rhagnodedig, roedd y cais yn destun cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad, gan roi'r cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae sylwadau a gafwyd trwy'r gweithdrefnau hyn wedi cael eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar y cais hwn.

Atal

72. Mae'r penderfyniad yn ystyried yr angen i gynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy a brwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd, yn ogystal â diogelu ffynonellau ynni'n fwy.
73. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, nodaf y ddyletswydd i gyflawni datblygiad cynaliadwy o dan adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac ystyriaf fod y penderfyniad yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf LICD. Yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf LICD ac amcanion llesiant Gweinidogion Cymru, bydd y penderfyniad yn helpu i "adeiladu economi gryfach, wyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf posib tuag at ddatgarboneiddio".
74. Anfonwyd copi o'r llythyr hwn i Gyngorau Bro Morgannwg a Chaerdydd.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Atodiad A – Amodau ar gyfer DNS/3261558

1. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

Rheswm: Cydymffurfio â gofynion Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Yn amodol ar ofynion amodau eraill sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwn bydd y cynnig yn cael ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau canlynol:
 - 20.13_100_CYNLLUN LLEOLIAD SAFLE_DIW B_MATER CYNLLUNIO Fferm Brynwell
 - 20.13_301 DIW D – CYNLLUN BLOC SAFLE – ARFAETHEDIG
 - 20.13_302 – CYNLLUN BLOC SAFLE – ARFAETHEDIG – ARDAL CLOS DNO
 - 20.13_302_CYNLLUN BLOC SAFLE ARFAETHEDIG_DNO
 - IS-ORSAF_MATER CYNLLUNIO Safle Fferm Solar Brynwell_12102020
 - Asesiad o Effaith Ecolegol Diwygiad 2 (Mawrth 22)
 - Adendwm Madfall Ddŵr Gribog
 - 10087A - Astudiaeth Fflach a Llacharedd Ffotofoltäig Solar - Fferm Solar Brynwell - 02Mawrth2021
 - Cynllun Cyfyngiadau Coed - 10693 TCP 07_Brynwell
 - Arolwg Coed - 10693 TS 07_Brynwell
 - Datganiad Trafnidiaeth - DT Diwygiedig 16426-HYD-XX-XX-RP-TP-4002-P01
 - Asesiad Effaith Sŵn - 16426-XX-HYD-ACO-Brynwell Arfarniad o Effaith Sŵn Storfa Batris Brynwell - Diwygiad 1 a ffotograffau cysylltiedig
 - 3261558 - Fferm Solar Brynwell - Cynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylcheddol Amlinellol
 - 3261558 - Adroddiad Ymgynghoriad V2 Ebrill 2021
 - 3261558 - Datganiad Cynllunio
 - Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Prosiect Solar Fferm Brynwell 2021
 - LVIA Prosiect Fferm Solar Brynwell 11.3.21
 - Cynlluniau a Barn Cynrychiolwyr LVIA Prosiect Solar Brynwell 11.3.21
 - Cynllun Cyfyngiadau - edp6698_d004a
 - 3261558 - Gwybodaeth Bellach mewn ymateb i Gais yr Arolygydd (21 Medi)
 - edp6698_r001-A-Asesiad Archeolegol a Threftadaeth
 - edp6698_r002-B-Adendwm Asesiad Archeolegol a Threftadaeth
 - E-bost gydag Awdurdod Cynllunio Lleol BM ynghylch Sylwadau Ecoleg – Dyddiedig 9 Awst 2021
 - Asesiad Canlyniadau Llifogydd 16470-HYD-XX-XX-RP-FR-0001_P06
 - 3261558 - Prawf Dilyniant Dewis Safle
 - E-bost gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch Amodau Cynllunio a Draeniad
 - Cynlluniau Pont Lecwydd a. Pont Bresennol - B1599-4755 b. Pont Newydd - 70053561-002 Diw. 2(1)
 - Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu - CTMP 16426-HYD-XX-XX-RP-TP-7002-P01
 - E-bost ynghylch CTMP gyda'r Adran Priffyrdd Sirol
 - Adendwm LVIA Atodol - SEP21 a ZTV, AVR a VP cysylltiedig
 - CYNLLUN CILFACH PASIO - GYDA DELWEDDAU GOLWG STRYD CYSYLLTIEDIG - 16426-HYD-XXXX-DR-TP-0001-P1.07
 - Cynllun Cilfach Pasio - 16426-HYD-XX-XX-DR-TP-0002-P1.07

- ARDAL GOSOD I LAWYR DDANGOSOL ARFAETHEDIG GYDA THOCIO LLYSTYFIANT - 16426-HYDXX-XX-DR-TP-0003-P1.07
- DADANSODDIAD LLWYBR YSGUBOL YN YR ARDAL GOSOD I LAWYR - CERBYD CYMALOG 16.5M - 16426HYD-XX-XX-DR-TP-0004-P1.07
- DADANSODDIAD LLWYBR A YSGUBWYD CERBYD CYMALOG 16.5M - 16426HYD- XXXX-DR-TP-0001-P1.08
- Golwg Stryd - Dimensiynau Ymweliad Safle Cilfachau Pasio
- TC22051 Ffotogyfosodiad Brynwell Solar 5
- TC22051 Brynwell Solar VP9
- Nodyn Technegol Draeniad - 16470-HYD-XX-XX-TN-FR-0001
- E-bost gan Ecolegydd BM dyddiedig 7 Mawrth 2022
- 3261558 - Ymateb i gais am Wybodaeth Bellach

Rheswm: Er mwyn osgoi amheuaeth ynglŷn â'r datblygiad cymeradwy ac i gyd-fynd â Chylchlythyr 016/2014 ar Ddefnyddio Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu.

3. O fewn 41 mlynedd i'r dyddiad pan fydd trydan yn cael ei allforio am y tro cyntaf, neu o fewn blwyddyn i roi'r gorau i gynhyrchu trydan o'r safle, bydd y paneli ffotofoltäig solar, fframiau, sylfeini, a'r holl strwythurau a ffensys cysylltiedig a ganiateir yma wedi cael eu datgymalu a'u symud o'r safle, a'r safle wedi'i adfer yn unol â chynllun i'w gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddo. Bydd y datblygwr yn hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl dechrau allforio trydan a rhoi'r gorau i gynhyrchu pŵer.

Rheswm: Er budd mwynder gweledol ac i sicrhau y cydymffurfir â Pholisïau MD1, MD2 a MG17 y Cynllun Datblygu Lleol.

4. Cyn cychwyn y datblygiad, bydd arolwg cyflwr cyn-adeiladu (gan gynnwys ymylon a llystyfiant y briffordd) yn cael ei gynnal o'r llwybr cludo a cheblau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad, gan gynnwys manylion y bwriad i adfer y briffordd, a'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei weithredu wedyn yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd yn unol â Pholisi MD2 y Cynllun Datblygu Lleol.

5. O fewn 3 mis i gwblhau'r datblygiad, bydd arolwg cyflwr ôl-adeiladu, o'r llwybr cludo a cheblau, wedi'i hysbysu gan y manylion a gymeradwywyd gan amod 4, yn cael ei gynnal yn unol â chynllun i'w gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn bod llystyfiant ac ymylon priffordd yn cael eu hadfer a bod unrhyw waith adferol a nodwyd yn y cynllun a gymeradwywyd yn cael ei wneud o fewn 6 mis i gwblhau'r datblygiad a gymeradwyir drwy hyn.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd yn unol â Pholisi MD2 y Cynllun Datblygu Lleol.

6. Ni fydd unrhyw waith adeiladu na danfoniadau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad a gymeradwywyd yma yn digwydd ar y safle ar unrhyw ddydd Sul neu Wyl y Banc nac ar unrhyw ddiwrnod arall ac eithrio rhwng yr oriau canlynol: Dydd Llun i ddydd Gwener 0800 – 1800, dydd Sadwrn 0800 – 1300. Bydd unrhyw waith stancio sy'n gysylltiedig â'r datblygiad wedi ei gyfyngu i ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 09:00 a 17:00 o'r gloch.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd a diogelu mwynderau trigolion, ac i sicrhau y cydymffurfir â thelerau Polisi MD2 y Cynllun Datblygu Lleol.

7. Ni fydd unrhyw oleuadau'n cael eu gosod yn ystod gweithredu'r safle fel cyfleuster ffotofoltäig solar.

Rheswm: Er budd mwynder gweledol a buddiannau bioamrywiaeth ac i sicrhau y cydymffurfir â Pholisi MD1 a MD9 y Cynllun Datblygu Lleol.

8. Ar wahân i'r dogfennau a gyflwynwyd, cyn cychwyn y datblygiad, bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu yn cynnwys manylion y mathau o gerbydau adeiladu sydd i'w defnyddio, cynllun llwybr, gwaith arolygu Gower Lane i nodi mannau pasio, amlenni gweledd ymlaen, gwelliannau lleol, neu systemau hebrwng i hwyluso adeiladu'r datblygiad a manylion ychwanegol am y ddarpariaeth ac adfer yr ardal gosod i lawr ac unrhyw gilfachau pasio dros dro wedi'r datblygiad. Bydd y datblygiad ar ôl hynny'n cael ei weithredu'n llawn yn unol â'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu y cytunwyd arno.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd ac ystyried natur y ffyrdd gwledig yn unol â Pholisïau MD2 a MD7 y Cynllun Datblygu Lleol.

9. Ar wahân i'r manylion a gyflwynwyd, ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau, gan gynnwys unrhyw waith dymchwel neu glirio'r safle, nes bod Cynllun Rheoli Adeiladu a'r Amgylchedd ("CEMP") wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y CEMP yn cynnwys y manylion canlynol:

- a. parcio cerbydau gweithredwyr safle ac ymwelwyr;
- b. clos safle/ardal gosod i lawr i ddangos darpariaeth briodol ar gyfer cerbydau nwyddau trwm a gwelliannau dros dro i'r mynediad cerbydau arfaethedig, a fydd yn cynnwys manylion unrhyw waith i ledu'r fynedfa a'r ffordd gerbydau, a lleiniau gweledd i'r ddau gyfeiriad ynghyd â manylion adfer y tir cysylltiedig, unrhyw dynnu gwrychoedd a chynigion i blannu rhai newydd;
- c. llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau;
- d. storio peiriannau a deunyddiau a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad;
- e. codi a chynnal hysbysfwrdd diogelwch gan gynnwys arddangosfeydd addurnol a chyfleusterau ar gyfer gwyllo cyhoeddus, lle bo hynny'n briodol;
- f. dulliau i osgoi effeithiau ar goed a'u hardaloedd gwarchod gwreiddiau ac i osgoi cywasgu pridd;
- g. cyfleusterau golchi olwynion;
- h. mesurau i reoli a lliniaru allyriadau llwch, mwg, llygryddion a baw eraill yn yr awyr wrth adeiladu;
- i. cynllun ar gyfer ailgylchu/gwaredu gwastraff sy'n deillio o waith dymchwel ac adeiladu;
- j. goleuadau dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu;
- k. rheoli a lliniaru sŵn a dirgryniad, gan sicrhau bod sŵn yn cael ei gadw i isafswm yn unol â BS 5228 - Cod ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu ac agored;
- l. rheoli a lliniaru arogleuon;
- m. byndiau ac ardaloedd storio tanciau olew a disel;

- n. rheoli dyfroedd wyneb, gan gynnwys diogelu cyrsiau dŵr a dŵr daear; draenio dŵr wyneb dan y pridd; byndio a lleoli ardaloedd storio tanwydd; a gweithdrefnau argyfwng a chynlluniau ymateb i lygredd;
- o. mesurau i osgoi a/neu leihau risg niwed i rywogaethau gwarchodedig yn ystod clirio'r safle a gweithgareddau adeiladu;
- p. dulliau ar gyfer gosod ceblau drwy gloddiau a gwrychoedd; a
- q. manylion adfer yr ardaloedd gwaith ar ôl yr adeiladu, gan gynnwys gwrychoedd a phridd a nodweddion naturiol yr ardal.

Bydd y gwaith o adeiladu'r datblygiad yn cael ei wneud yn llawn yn unol â'r CEMP cymeradwy.

Rheswm: Sicrhau bod y gwaith o adeiladu'r datblygiad yn cael ei wneud mewn modd cymdogol, i sicrhau bod dyfroedd wyneb yn cael eu rheoli ac er mwyn diogelu amwynder a'r amgylchedd a sicrhau y cydymffurfir â thelerau Polisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

10. Ar wahân i'r manylion a gyflwynwyd, ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes bod Cynllun Rheoli Tirwedd a'r Amgylchedd ("LEMP") wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y LEMP yn cynnwys manylion y cynefinoedd, tirwedd a nodweddion ecolegol presennol ac arfaethedig ar y safle, amserlennu ac amseru gweithgareddau a chynlluniau rheoli:

- a. manylion y drefn rheoli gwrychoedd;
- b. y rhywogaeth a chyrchu gwrychoedd ychwanegol/newydd i'w plannu;
- c. manylion y gymysgedd hadau er mwyn creu cynefin glaswelltir a manylion diwygiedig rheoli chwyn gan gynnwys mieri;
- d. manylion llawn am reoli gwrychoedd yn y tymor hir ar gyfer y cyfnod gweithredu;
- e. amserlen o weithgareddau rheoli, sy'n ystyried cyfnodau gweithio arfer da;
- f. adolygiad o'r gweithgareddau rheoli yn y LEMP bob pum mlynedd ar gyfer y cyfnod gweithredu, wedi'i hysbysu drwy fonitro cyflwr cynefinoedd; a
- g. manylion gwaith yn ymwneud â phob coeden ar y safle.

Bydd y LEMP yn cael ei gyflawni yn unol â'r manylion cymeradwy ac yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni fel y manylir yn y LEMP cymeradwy.

Rheswm: Er mwyn diogelu ecoleg y safle ac i sicrhau lliniaru a gwella gwerth ecolegol y safle yn unol â Pholisi MD2 ac MG17 y Cynllun Datblygu Lleol.

11. Ni fydd lefel y sŵn a allyrrir o'r safle yn fwy na 29dB yn ystod y dydd a'r nos fel y'u mesurir ar ffiniau'r annedd agosaf.

Rheswm: Diogelu amodau byw deiliaid eiddo preswyl cyfagos yn unol â Pholisiâu SP1 (Cyflawni'r Strategaeth), MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd) y Cynllun Datblygu Lleol.

12. Bydd yr unedau cynhwysydd storio batris, cydrannau DNO, a cholofnau teledu cylch cyfyng a gymeradwyir yma'n cael eu gorffen mewn lliw gwyrdd tywyll neu frown.

Rheswm: Lleihau effeithiau tirwedd a gweledol sy'n deillio o'r cynllun yn unol â Pholisïau MD19 (Cynhyrchu Ynni Carbon Isel ac Adnewyddadwy) ac MG17 (Ardaloedd Tirwedd Arbennig).

13. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod yr ymgeisydd, neu ei asiantau neu olynwyr mewn teitl, wedi sicrhau cytundeb ar gyfer cynllun ysgrifenedig o liniaru'r amgylchedd hanesyddol sydd wedi'i gyflwyno gan yr ymgeisydd a'i gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol. Ar ôl hynny, bydd y rhaglen waith yn cael ei chynnal yn llawn yn unol â gofynion a safonau'r cynllun ysgrifenedig.

Rheswm: Adnabod a chofnodi unrhyw nodweddion o ddiddordeb archeolegol a ddarganfuwyd yn ystod y gwaith, er mwyn lliniaru effaith y gwaith ar yr adnodd archeolegol.

14. Ar wahân i'r cynlluniau a gyflwynwyd 16426-HYD-XX-XX-DR-TP-0001-P1.06 a 16426-HYD-XX-XXDR-TP-0002-P1.06, cyn dechrau'r datblygiad, bydd manylion y gwelliannau arfaethedig i'r briffordd fabwysiedig i ddarparu cilfachau pasio yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y manylion yn cynnwys lleoliadau, dimensiynau a manylion adeiladu ar gyfer y cilfachau pasio arfaethedig a manylion amlenni gwelededd ymlaen. Bydd y manylion hefyd yn cynnwys cynllun lliniaru addas sy'n ymwneud â gwaredu a disodli unrhyw glawdd/gwrych/llystyfiant i'w golli o ganlyniad i'r gwaith (gan gynnwys amserlen ar gyfer gwaith o'r fath ac unrhyw golled sy'n gysylltiedig â'r mynediad i'r ardal gollwng i lawr arfaethedig). Darperir y cilfachau pasio wedi hynny yn unol â'r manylion cymeradwy cyn defnyddio'r lôn gan draffig adeiladu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad a gymeradwyir drwy hyn. Bydd unrhyw waith lliniaru yn cael ei wneud yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd a chynnal llif rhydd o draffig ar hyd y briffordd fabwysiedig.

15. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod adroddiad sy'n manylu ar gyfanrwydd strwythurol Pont Lecwydd a'i gallu i wrthsefyll gosod ceblau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad, wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr adroddiad yn cael ei gynnal gan beiriannydd strwythurol/sifil cymwys sydd wedi'i ardystio'n briodol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys manylion y ceblau arfaethedig i'w gosod ar hyd y briffordd fabwysiedig ac ar draws Pont Lecwydd, foltedd, math, maint, pwysau, a chyfrifiadau'r ceblau ar gyfer llwytho ar y bont a'r dull gosod. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd.

Hysbysiad o gychwyn datblygiad ac arddangos hysbysiad

Rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswyddau yn adran 71ZB (hysbysiad o gychwyn datblygiad ac arddangos hysbysiad: Cymru) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys y canlynol:

Hysbysiad o gychwyn datblygiad

Cyn dechrau unrhyw ddatblygiad y mae'r caniatâd cynllunio hwn yn ymwneud ag ef, rhaid rhoi hysbysiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar y ffurf a nodir yn Atodlen 5A i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sy'n sylweddol debyg. Mae'r ffurflen yn nodi'r manylion y mae'n rhaid eu rhoi i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Arddangos yr hysbysiad

Rhaid i'r sawl sy'n cynnal y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio hwn yn ymwneud ag ef arddangos yn y man lle mae'r datblygiad yn digwydd neu'n agos iddo, ar bob adeg pan fydd yn digwydd, hysbysiad o'r caniatâd cynllunio hwn ar y ffurf a nodir yn Atodlen 5B i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sy'n sylweddol debyg i honno. Mae'r ffurflen yn nodi'r manylion y mae'n rhaid i'r sawl sy'n cynnal datblygiad eu harddangos i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Rhaid i'r sawl sy'n cynnal y datblygiad sicrhau bod yr hysbysiad:

- (a) wedi'i osod yn gadarn a'i arddangos mewn man amlwg yn y man lle mae'r datblygiad yn digwydd neu'n agos ato;
- (b) yn ddarllenadwy a hawdd ei weld i'r cyhoedd heb orfod mynd i mewn i'r safle; ac
- (c) wedi'i argraffu ar ddeunydd gwydn. Dylai'r sawl sy'n cynnal y datblygiad gymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad (rhag cael ei symud, ei guddio neu ei ddifwyno) ac, os oes angen, gosod un newydd.